Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Hydref 2021

Amser: 13.30 - 14.41

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12448

O bell

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd) Rhys ab Owen AS Jayne Bryant AS Samuel Kurtz AS (yn lle Peter Fox AS)
Staff y Pwyllgor:	P Gareth Williams (Clerc) Sarah Sargent (Ail Glerc) Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Peter Fox AS. Roedd Samuel Kurtz AS yn dirprwyo ar ei ran.

2 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

2.1 SL(6)049 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Hysbysu) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

2.2 SL(6)052 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws (Tenantiaethau Preswyl: Estyn Cyfnod Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 3) (Cymru) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

2.3 SL(6)050 – Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

2.4 SL(6)053 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 17) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

3 Papurau i'w nodi:

3.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Gohirio cyfarfod y Grŵp Rhyng-Weinidogol i drafod Etholiadau a Chofrestru

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

3.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Amgylchedd

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, i'w adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd.

3.3 Gohebiaeth gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru: Trydydd adroddiad blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

Nododd y Pwyllgor y llythyr a'r trydydd adroddiad blynyddol gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac, yn breifat, cytunwyd i wahodd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i sesiwn graffu ar y cyfle cyntaf.

3.4 Datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu'r system gyfiawnder a'r sector cyfreithiol yng Nghymru.

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig.

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig

5 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd - trafod yr adroddiad drafft.

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, a chytunodd i ystyried fersiwn ddrafft ddiwygiedig o'i adroddiad yn y cyfarfod nesaf.

6 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Asiantaeth Ymchwil a Dyfeisio Blaengar, a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft yn y cyfarfod nesaf.

7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

Trafododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16, a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft yn y cyfarfod nesaf.

8 Nodyn briffio ar gytundebau rhyngwladol

Trafododd y Pwyllgor y cytundebau rhyngwladol a ganlyn:

- Y DU/Albania: Aildderbyn Pobl;
- Y DU/Portiwgal: Cytundeb ynghylch Cyflogi Aelodau'r Teulu sy'n rhan o Aelwyd Cenadaethau Diplomyddol;
- Y DU/Antigua a Barbuda: sefydlu Ffin Forwrol rhwng Anguilla ac Antigua a Barbuda;

a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft ar y cytundebau yn y cyfarfod nesaf.